



POLISI CWRICWLWM

AMCANION

Mae'r ysgol yn ymrwymedig i sicrhau bod ein disgyblion yn cael mynediad i gwricwlwm eang a chytbwys, sy'n cydfynd a'u hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau, ond sydd hefyd yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth anghenrheidiol er mwyn codi cyrhaeddiad addysgol a sicrhau bod pob disgybl yn gallu cyflawni ei botensial yn llawn.


Mae cwricwlwm Ysgol y Strade yn:

- Cydymffurfio a'r gofynion stadudol y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r Fframwaith Sgiliau
- cwrdd ag anghenion y dysgwyr unigol
- canolbwyntio ar y dysgwr
- sicrhau bod y sgiliau yn cael eu datblygu a'u cymhwyso
- canolbwyntio ar barhad a dilyniant rhwng y cyfnodau allweddol
- bod yn hyblyg a meithrin agweddau cadarnhaol
- cefnogi polisi'r Llywodraeth ac sy'n cynnwys
 - dwyieithrwydd
 - y Cwricwlwm Cymreig
 - Cymru, Ewrop a'r Byd
 - Cyfle cyfartal a'r egwyddor o barch
 - Bwyd a ffitrwydd
 - Datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang
 - Byd gwaith ac entrepreneuriaeth

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Datblygu sgiliau
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)
- Addysg Rhyw
- Gyrfaodded a Byd Gwaith (GBG)
- Addysg Grefyddol

Sicrheir dilyniant a pharhad rhagorol rhwng y cyfnodau allweddol CA2/3, CA3/4 a CA4/5 drwy gynllunio manwl a chynghori dwys o ansawdd uchel.





Bydd y cwricwlwm yn cael ei arfarnu yn flynyddol drwy gweithdrefnau hunan arfarnu'r ysgol a bydd cyfle i drafod materion cwricwlwm yn reolaidd mewn cyfarfodydd arwain a chynllunio. Mae'r penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar anghenion ein dysgwyr.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	

Tachwedd 2017

